Rhif ymchwil gymdeithasol: 59/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2026

# Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020: amcangyfrif yr achosion o gosb gorfforol yn erbyn plant a gofnodir gan yr heddlu

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-83745-393-1

# Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020: amcangyfrif yr achosion o gosb gorfforol yn erbyn plant a gofnodir gan yr heddlu

Awduron: Ryan Nicholls, Daniel Boon, Chloe Whiteley, Hannah Davies

Adroddiad Ymchwil Llawn: Nicholls, R., Boon, D., Whiteley, C., Davies, H. (2025). Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020: amcangyfrif yr achosion o gosb gorfforol yn erbyn plant a gofnodir gan yr heddlu. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 59/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/amcangyfrif-achosion-o-gosb-gorfforol-yn-erbyn-plant-a-gofnodwyd-gan-yr-heddlu

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr, ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Tystiolaeth ac Ymchwil CFC

Is-adran Cydraddoldeb, Tlodi a Thystiolaeth a Chefnogaeth Plant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru

# Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ..... 2

Rhestr o ffigurau ..... 2

Rhestr Termau ..... 3

1. Cyflwyniad a chefndir ..... 4
   - 1.1. Cefndir a chyd-destun ..... 4
   - 1.2. Y model a ddatblygwyd ..... 4
   - 1.3. Yr adroddiad hwn ..... 5

2. Methodoleg ..... 6
   - 2.1. Data ..... 6
   - 2.2. Paratoi'r data ..... 6
   - 2.3. Model ..... 7
   - 2.4. Dosbarthu ..... 8
   - 2.5. Cyfyngiadau ..... 9

3. Canfyddiadau ..... 10
   - 3.1. Cyn gweithredu'r Ddeddf ..... 10
   - 3.2. Ar ôl gweithredu'r Ddeddf ..... 11

4. Casgliadau ..... 13

Cyfeiriadau ..... 14

Atodiad A ..... 15

## Rhestr o dablau

Tabl 1: Amcangyfrif o'r achosion o gosb gorfforol ac ymosodiadau eraill yn erbyn plant, rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2022 [Nodyn 1] .......................................... 10
Tabl 2: Amcangyfrif o'r achosion o gosb gorfforol ac ymosodiadau eraill yn erbyn plant, rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mehefin 2025 [Nodyn 1] .......................................... 11

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Amcangyfrif o'r achosion o gosb gorfforol ac ymosodiadau eraill yn erbyn plant, rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mehefin 2025 [Nodyn 1] .......................................... 12

## Rhestr Termau

### Y Ddeddf

Yn cyfeirio at Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, sy'n ei gwneud yn anghyfreithiol i unrhyw un gosbi plentyn mewn modd corfforol yng Nghymru drwy ddileu amddiffyniad cyfreithiol "cosb resymol".

### Grŵp Gorchwyl a Gorffen Casglu Data a Monitro

Aeth y grŵp ati i ystyried dulliau casglu data ar draws sefydliadau er mwyn monitro effaith Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ar wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau eraill. Roedd yr aelodau yn dod o amrywiaeth o sefydliadau â diddordeb allweddol mewn monitro'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus ac roeddent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru, Heddluoedd yng Nghymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CAFCASS Cymru, Cyfarwyddwyr Addysg a Llywodraeth Cymru.

### Platfform e-Ymchwil Diogel y DU (UK SeRP)

Y Platfform e-Ymchwil Diogel yw'r datrysiad cyflawn y gellir ei deilwra ar gyfer Amgylcheddau Ymchwil Dibynadwy: gellir rhannu, cysylltu a dadansoddi data mewn amgylchedd diogel wedi'i reoli, sydd wedi'i achredu i'r safon ryngwladol uchaf. Mae'r system wedi'i hynysu at ddibenion diogelwch, sy'n golygu nad oes ganddi gysylltiad gweithredol â'r rhyngrwyd ac mai dim ond drwy fwrdd gwaith rhithwir y gellir cysylltu â hi.

### Modus operandi (MO)

Y disgrifiad a roddir ar gyfer pob achos yn y set ddata. Maes testun agored a gwblheir gan swyddog yr heddlu sy'n cofnodi'r drosedd.

### Modelau iaith mawr (LLM)

Systemau deallusrwydd artiffisial datblygedig sydd wedi'u hyfforddi mewn perthynas â setiau data testun enfawr i ddeall, cynhyrchu, a rhesymu â iaith ddynol. Mae enghreifftiau ohonynt yn cynnwys ChatGPT a Microsoft Copilot. Rhwydweithiau niwral trawsnewidiol, y defnyddir un ohonynt i gynnal y gwaith dadansoddi isod, sy'n sail i fodelau iaith mawr.

### Prosesu iaith naturiol (NLP)

Maes deallusrwydd artiffisial sy'n galluogi cwsmeriaid i ddadansoddi, deall, a chael ystyr o iaith ddynol ar ffurf testun neu ar ffurf lafar. Mae modelau iaith mawr yn fath o fodel prosesu iaith naturiol sy'n defnyddio setiau data mawr a rhwydweithiau niwral i ddeall a chynhyrchu iaith ddynol.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## 1.1. Cefndir a chyd-destun

Ar 20 Mawrth 2020, cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel ‘y Ddeddf’) Gydsyniad Brenhinol. Daeth y Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022.

Prif amcan y Ddeddf yw helpu i amddiffyn hawliau plant drwy wahardd y defnydd o gosb gorfforol yn erbyn plant, drwy ddileu amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn yn golygu nad yw'r amddiffyniad ar gael mwyach o fewn tiriogaeth Cymru i rieni neu'r rhai hynny sy'n gweithredu in loco parentis (yn gweithredu â chyfrifoldeb rhiant), fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod a churo cyffredin yn erbyn plentyn dan eu gofal.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus amlgyfrwng helaeth cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith. Dechreuodd yr ymgyrch hon ym mis Mehefin 2021 a chafodd ymgyrchoedd hysbysebu digidol ac ymgyrchoedd teledu eu lansio'n llawn ym mis Medi 2021 gan gyrraedd brig o ran gweithgarwch cyfathrebu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r gyfraith ac i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni am ddewisiadau amgen cadarnhaol yn lle cosb gorfforol.

O dan delerau'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar effeithiau'r newidiadau deddfwriaethol 3 blynedd a 5 mlynedd ar ôl eu rhoi ar waith. Cytunodd Gweinidogion Cymru a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ffocws yr adolygiad ôl-weithredu wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio. Mae'n canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- yr effaith ar wasanaethau cyhoeddus
- ymwybyddiaeth o'r gyfraith
- agweddau at gosb gorfforol
- safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid

Cyhoeddwyd yr adolygiad ôl-weithredu 3 blynedd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020: synthesis tystiolaeth a data) ar 16 Rhagfyr 2025. Mae'r synthesis yn seiliedig ar amrywiaeth eang o ffynonellau data ac ymchwil, gan gynnwys data gan Heddluoedd yng Nghymru, lle bo data o'r fath ar gael.

## 1.2. Y model a ddatblygwyd

Ffurfiodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Casglu Data a Monitro i ddatblygu dulliau i fonitro effaith y newid mewn deddfwriaeth, gan gynnwys yr effaith ar Heddluoedd yng Nghymru.

Penderfynodd y Grŵp na fyddai modd defnyddio dull safonedig o nodi achosion o gosb gorfforol, megis ychwanegu baneri at achosion o ddiddordeb, gan nad oedd y Ddeddf yn creu trosedd newydd. Mae gweithredu o dan reolau cyfrif y Swyddfa Gartref (Swyddfa Gartref, 2024), yn atal baneri rhag cael eu hychwanegu i wahaniaethu rhwng achosion o gosb gorfforol a mathau eraill o ymosod.

Felly, nid oedd modd nodi achosion a oedd yn deillio'n uniongyrchol o'r Ddeddf na defnyddio unrhyw wybodaeth hanesyddol yn nodi pryd y gellid bod wedi defnyddio'r amddiffyniad “cosb resymol” blaenorol. Felly, cytunwyd mai'r ffordd orau o amcangyfrif achosion o ddiddordeb oedd i ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru ddylunio algorithm i adolygu ffeiliau achos ac amcangyfrif pa ddigwyddiadau oedd yn debygol o gynnwys cosb gorfforol.

Oherwydd cyfyngiadau systemau gwybodaeth yr heddlu, roedd yn rhaid i unrhyw ddull a gynigiwyd fod yn ddull y gellid ei gymhwyso mewn modd ôl-weithredol at y data a oedd eisoes wedi'u casglu gan yr heddlu yng Nghymru. Roedd y data hyn wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i'r adroddiadau a ysgrifennwyd gan swyddogion ar systemau rheoli troseddau'r heddlu, a'r wybodaeth gyd-destunol (gweler Atodiad A) am y dioddefwyr a'r troseddwyr a oedd wedi'i chadw ochr yn ochr â'r data hyn. O'r wybodaeth hon, penderfynwyd mai rhyw fath o system dosbarthu testun fyddai'r dull mwyaf priodol o gyfrif achosion a fyddai o ddiddordeb i'r adolygiadau ôl-weithredu o'r Ddeddf.

Ym mis Medi 2022, noddodd Llywodraeth Cymru aelod o Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth i ymgymryd â gradd Meistr (MSc) mewn Dadansoddi Data i'r Llywodraeth (MDataGov)[troednodyn 1] i ddylunio dull gweithredu awtomatig newydd i ddosbarthu data'r heddlu. Daeth y gwaith hwn i'r casgliad fod model iaith mawr wedi'i hyfforddi ymlaen llaw yn well na model chwilio geiriau allweddol a ddefnyddiwyd ar yr un data, gan gyflawni lefel gywirdeb o 88% wrth ragfynegi achosion o gymharu â 77% ar gyfer y model chwilio geiriau allweddol. Dangosodd hyn y byddai hynny'n well dull ar gyfer nodi achosion o gosb gorfforol o ddata'r heddlu, ac y gallai felly atgyfnerthu'r dull ar gyfer monitro tueddiadau a chefnogi'r adolygiadau ôl-weithredu o'r Ddeddf ar ôl 3 blynedd a 5 mlynedd.

Defnyddiwyd y model prosesu iaith hwn wedi'i hyfforddi ymlaen llaw gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru i gynhyrchu'r canlyniadau a nodir yn yr adroddiad hwn.

### 1.3. Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn ategu'r canfyddiadau lefel uchel a gyhoeddwyd yn yr adolygiad ôl-weithredu 3 blynedd o'r Ddeddf (Llywodraeth Cymru, 2025). Nod yr adroddiad hwn yw darparu canlyniadau manwl o'r model a darparu disgrifiad lefel uchel o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

---

Troednodyn

[1] Rhaglen ôl-raddedig wedi'i theilwra ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus yw'r radd Meistr (MSc) mewn Dadansoddi Data i'r Llywodraeth. Mae'n fenter ar y cyd rhwng Campws Gwyddor Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a phartneriaid academaidd ledled y DU, ac mae ar gael i bob cyflogai yn y sector cyhoeddus.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Data

Cafodd y data eu storio ar Blatfform e-Ymchwil Diogel y DU (UK SeRP), sef platfform diogel â mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd, oherwydd eu natur sensitif. Roedd y data yn cynnwys gwybodaeth mae swyddogion yr heddlu yn ei chofnodi pan fyddant yn cael gwybod am drosedd, gan gynnwys disgrifiad o'r drosedd y rhoddwyd gwybod amdani, a gwybodaeth gyd-destunol arall (gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth).

Gan nad yw cosbi plentyn mewn modd corfforol yn ddosbarthiad trosedd penodol, dim ond achosion a gofnodwyd fel ymosodiadau cyffredin (CPS, 2025), wedi'u cyflawni gan oedolyn yn erbyn plentyn (person o dan 18 oed), lle nad oedd unrhyw gydberthynas hysbys rhwng y dioddefwr a'r troseddwr a fyddai'n golygu na fyddai'r drosedd yn cael ei hystyried fel cosb gorfforol gan riant neu'r rhai hynny sy'n gweithredu in loco parentis, roedd y data a gyflwynwyd gan yr heddluoedd yn eu cynnwys.

Prif elfen y data oedd maes testun agored a oedd yn cofnodi modus operandi (MO) y drosedd. Roedd y maes hwn yn cynnwys disgrifiad byr o'r drosedd, wedi'i fewnbynnu gan swyddog yr heddlu, ac unrhyw fanylion a allai fod yn ddefnyddiol i swyddogion yr heddlu gynnal ymchwiliadau pellach. Rhaid i'r testun MO hwn bob amser gael ei gofnodi yn y maes testun gan y swyddog sy'n cofnodi pob trosedd, ond nid oes terfyn isaf nac uchaf ar gyfer nifer y geiriau.

Cyflwynwyd data gan heddluoedd yng Nghymru i Lywodraeth Cymru drwy system trosglwyddo ffeiliau data ddiogel i nifer cyfyngedig o ddadansoddwyr a oedd yn gweithio ar y model, a'u trosglwyddo'n syth i UK SeRP. Cyflwynodd tri o'r pedwar heddlu yng Nghymru ddata cyn gweithredu'r Ddeddf ac ar ôl gweithredu'r Ddeddf, gan gwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mehefin 2025.

Cafodd cyfanswm o 13,860 o achosion eu cynnwys yn y set ddata lawn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Roedd 6,420 ohonynt wedi'u cofnodi gan Heddlu Gogledd Cymru, 3,875 gan Heddlu Dyfed Powys, a 3,565 gan Heddlu Gwent. Mae'r data wedi’u talgrynnu i’r 5 agosaf. Caiff y cyfansymiau a'r canrannau eu cyfrifo gan ddefnyddio niferoedd crai ac mae'n bosibl na fyddant yn ymddangos fel petaent yn cyfateb. Nid yw'r data hyn ar gael i'r cyhoedd.

## 2.2. Paratoi'r data

Cafodd y set ddata ei chreu'n wreiddiol at ddibenion rheoli troseddau ac ni fwriadwyd iddi gael ei defnyddio i ddosbarthu testun. Roedd llawer o'r testun a gofnodwyd wedi cael ei fewnbynnu mewn ffordd anffurfiol ac mewn sawl achos, roedd defnydd anghywir neu anghyson o sillafu, gramadeg, atalnodi a phriflythrennau a llythrennau bach. Yn ogystal, roedd y cofnodion data yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth bersonol, a gwnaed pob ymdrech i ddileu'r wybodaeth hon at ddibenion diogelu data.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn y data, aeth y set ddata drwy broses Microsoft Presidio (Microsoft, 2022), sef algorithm anonymeiddio data y gellir ei deilwra a ddefnyddir i ddileu

manylion fel enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn ac unrhyw beth arall y gellid adnabod unigolion ohono. Gwnaed hyn cyn i ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru a oedd yn gweithio ar y data gynnal unrhyw gamau gweithredu pellach mewn perthynas â'r data.

Defnyddiwyd cyfuniad o ddynodyddion gwybodaeth bersonol parod a phenodol i ddileu mathau ansafonol o wybodaeth bersonol y gellid adnabod unigolion ohoni. Rhoddwyd dalfannau yn lle enghreifftiau o wybodaeth y gellid adnabod unigolion ohoni; er enghraifft, byddai “<PERSON>” yn cael ei roi yn lle enw. Wedyn, cwblhaodd dadansoddwyr Llywodraeth Cymru hapwiriadau â llaw i sicrhau bod unrhyw wybodaeth bersonol y gellid adnabod unigolion ohoni a oedd yn weddill wedi'i dileu.

Trawsnewidiwyd y data ymhellach yn y ffyrdd canlynol er mwyn sicrhau cysondeb, er mwyn gallu dehongli dadansoddiadau yn haws, ac i'w gwneud hi'n haws hyfforddi'r model:

- Cafodd yr holl destun ei drawsnewid i lythrennau bach. Cafodd hyn wared ar broblemau lle roedd achosion wedi'u cofnodi gan ddefnyddio priflythrennau yn llwyr neu lle defnyddiwyd priflythrennau yn anghywir
- Cafodd yr acronymau mwyaf cyffredin eu tynnu a'u hysgrifennu'n llawn. Roedd achosion yn aml yn cynnwys acronymau yn hytrach na thermau llawn. Er enghraifft, nododd yr heddlu fod ‘oel’ ac ‘ssd’ yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn lle ‘cofnod ymholiadau gan swyddog (*officer enquiry log)*’ ac ‘adran gwasanaethau cymdeithasol (*social services department*)’
- Cafodd enghreifftiau o atalnodi, gan gynnwys nodau arbennig, eu dileu o'r testun. Roedd achosion yn aml yn cael eu mewnbynnu'n anffurfiol, ac roedd y defnydd o atalnodi yn anghyson ac yn aml yn anghywir

## 2.3. Model

Oherwydd lleoliad storio'r data, roedd yn anodd mewnforio a chreu modelau amrywiol i'w profi. Fel y cyfryw, dewiswyd y math o fodel yn ôl y llenyddiaeth ymchwil ar y pryd (Vaswani et al. 2023), a nododd mai rhwydweithiau niwral trawsnewidiol oedd yr adnoddau dosbarthu testun a oedd yn perfformio orau ar lefel gyson. Oherwydd adnoddau cyfyngedig, a'r ffaith bod angen llawer o adnoddau i weithredu trawsnewidyddion, roedd y dewis o ran y modelau a oedd ar gael rywfaint yn gyfyngedig.

Wrth ystyried yr adnoddau a oedd ar gael, y model a ddewiswyd ar gyfer y dadansoddiad hwn oedd ‘distilbert-base-uncased’. Brasamcan llai a chyflymach o fodel mwy o faint a ddefnyddir yn amlach, o'r enw BERT, yw DistilBERT. Mae'r model yn fersiwn gynharach o ran o'r model sylfaen a ddefnyddir mewn rhaglenni fel ChatGPT a Copilot, wedi'u hyfforddi yn 2019. Defnyddiwyd fersiwn safonol DistilBERT, sef model wedi'i hyfforddi ymlaen llaw sy'n gallu dehongli data testun, ac nid yw'n ystyried a yw'r nodau ar ffurf priflythrennau neu lythrennau bach. Roedd hyn yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn gan fod y data yn aml yn defnyddio priflythrennau a llythrennau bach mewn ffyrdd ansafonol, fel enghreifftiau lle roedd achosion wedi'u cofnodi'n llwyr mewn priflythrennau. Roedd modelau eraill a oedd ar gael yn rhy fawr i'w cadw neu eu rhedeg ar y fersiwn o UK SeRP a ddefnyddiwyd.

Cafodd dau gylch o'r model eu rhedeg hyd yn hyn. Cafodd y cyntaf, fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, ei redeg fel rhan o'r prosiect gradd meistr gwyddor data a noddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnig tystiolaeth o'r cysyniad, ac wedyn ddangos bod model DistilBERT yn addas ar gyfer dosbarthu achosion o gosb gorfforol a gofnodwyd gan yr heddlu. Cafodd y model terfynol, a ddefnyddiwyd i lunio'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, ei fireinio yn seiliedig ar ganlyniad y cyntaf.

## 2.4. Dosbarthu

Roedd angen diffiniad o gosbi plentyn mewn modd corfforol er mwyn hyfforddi'r model a chynnal y dadansoddiad. Datblygwyd y diffiniadau isod gan swyddogion dadansoddol ar gyfer y model hwn yn unig, ac nid ydynt yn cynnig diffiniad polisi ffurfiol gan Lywodraeth Cymru o gosbi plentyn mewn modd corfforol yng Nghymru. Mae achosion yn anodd iawn i'w cymharu a'u categoreiddio oherwydd amgylchiadau unigryw pob digwyddiad, felly defnyddiodd y dadansoddwyr dan sylw eu barn orau wrth ddosbarthu achosion.

Cytunwyd ar 3 diffiniad a neilltuwyd yr achosion yn y set ddata i un o'r 3 chategori isod:

- Cosb gorfforol lefel is – a oedd yn cynnwys achosion o gosb gorfforol lefel isel, wedi'u cyflawni yn erbyn plentyn gan rywun a allai fod yn gweithredu'n rhesymol in loco parentis. Mae hyn yn debyg i ddiffiniad Seland Newydd (2007) o "fân weithredoedd o ddisgyblu corfforol", ac mae'n cynnwys mathau ysgafnach o gosb, fel slap ar yr arddwrn neu fwrw rhywun ar y fraich a fyddai ond yn gadael cochni dros dro ar y croen neu ddim marc o gwbl ar yr adeg y rhoddwyd gwybod am y drosedd
- Cosb gorfforol lefel uwch – a oedd yn cynnwys achosion o gosb gorfforol lefel uchel neu fwy difrifol, wedi'u cyflawni yn erbyn plentyn gan rywun a allai fod yn gweithredu'n rhesymol in loco parentis. Mae hyn yn debyg i ddiffiniad Seland Newydd (2007) o "smacio", ac mae'n cynnwys achosion mwy difrifol o gosb, fel dyrnu, rhoi dwylo ar wddf, neu dynnu gwallt, a fyddai naill ai'n gadael cochni dros dro ar y croen neu ddim marc o gwbl ar yr adeg y rhoddwyd gwybod am y drosedd
- Ymosodiad arall – a oedd yn cynnwys unrhyw achosion nad oeddent o ddiddordeb mewn perthynas â'r Ddeddf. Roedd hyn yn cynnwys unrhyw achosion lle nad oedd y cyflawnwr yn rhywun a oedd yn gweithredu in loco parentis, neu lle nad oedd digon o dystiolaeth yn yr MO i benderfynu a oedd yr achos yn gysylltiedig â chosb gorfforol neu beidio

O'r set ddata lawn, cafodd 15% o'r achosion (2,080) eu dewis ar hap a'u dosbarthu â llaw, gan ddefnyddio'r diffiniadau uchod, gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru. Wedyn rhannwyd y data hyn ar hap i set ddata hyfforddi, set ddata dilysu a set ddata profi, gyda phob set yn cynnwys 70%, 15% a 15%, yn y drefn honno. Defnyddiwyd y set ddata hyfforddi er mwyn helpu'r model i bennu'r math o achosion sy'n cyd-fynd â phob un o'r 3 chategori. Profwyd cywirdeb y model yn erbyn y set ddata dilysu, drwy fesur faint o'r achosion a ddosbarthwyd â llaw y gwnaeth eu rhagfynegi'n gywir.

Mireiniwyd y model drwy newid ei baramedrau, a oedd yn cynnwys pa mor gyflym roedd yn dysgu (y gyfradd ddysgu), faint o ddata roedd yn eu prosesu bob tro (maint y swmp), sawl rownd o hyfforddiant roedd yn ei gyflawni (nifer yr epocau), a pharamedr i leihau'r risg o or-

osod drwy gyfyngu gallu'r model i ymateb i fanylion unigol yn y data hyfforddi (gwanhad pwysau). Rhoddodd pob cyfuniad o baramedrau ganlyniadau ychydig yn wahanol yn erbyn y set ddata dilysu. Cymhwyswyd sawl cyfuniad o osodiadau cyn dewis y model terfynol.

Ar ôl dewis y model terfynol, cafodd ei redeg ar y set ddata profi. Roedd y set ddata hon yn cynnwys y 15% a oedd yn weddill o'r achosion wedi'u labelu nad oedd y model wedi'u gweld yn ystod ei hyfforddiant. Llwyddodd i labelu 78% o'r achosion yn y set ddata profi yn gywir, ac felly tybir bod ganddi'r un lefel cywirdeb ar gyfer y data nad oedd wedi'u gweld, nad oeddent wedi'u labelu.

## 2.5. Cyfyngiadau

Mae'r prif gyfyngiadau yn ymwneud â'r data crai a ddarparwyd, a'r platfform roedd y gwaith ymchwil wedi'i gyfyngu iddo.

Nid oedd y model wedi'i hyfforddi ymlaen llaw i fod wedi arfer â'r testun ar ei ffurf wreiddiol. Er bod y data wedi'u trawsnewid i liniaru'r risg hon, ni fyddai hynny wedi ystyried pob anghysondeb.

Cafodd yr achosion a ddosbarthwyd â llaw eu dewis ar hap, sy'n lleihau'r risg o duedd systematig, ond nid yw'n gwarantu dosbarthiad achosion gwastad ar draws cyfnodau amser na heddluoedd. Tybir bod y ffordd y caiff testun yr MO ei gofnodi wedi parhau'n gyson dros amser ac ar draws heddluoedd; fodd bynnag, mae achosion yn anodd iawn eu cymharu oherwydd amgylchiadau unigryw pob digwyddiad.

Cyflwynwyd y model a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil hwn yn 2019 ac mae'n cynrychioli cenhedlaeth gynharach o fodelau iaith yn seiliedig ar drawsnewidwyr. Mae maes prosesu iaith naturiol wedi datblygu'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Naveed et al., 2025), gyda modelau iaith mawr mwy newydd yn cynnig gallu rhesymu a dealltwriaeth gyd-destunol llawer gwell. Mae'n debygol y byddai model mwy newydd wedi perfformio'n well. O ganlyniad i'r fersiwn o UK SeRP a ddefnyddiwyd yma, er ei bod yn hanfodol wrth gadw'r data yn ddiogel, cyfyngwyd ar y dewis o fodel a'r pecynnau a oedd ar gael, oherwydd cyfyngiadau prosesu a hygyrchedd y fersiwn o'r platfform y gallai Llywodraeth Cymru ei defnyddio. Mae'n bosibl y byddai model mwy o faint, mwy pwerus wedi perfformio hyd yn oed yn well na'r model a weithredwyd yn y dadansoddiad hwn. Byddai'r gallu i osod pecynnau meddalwedd a lawrlwytho modelau heb gyfyngiadau wedi ein galluogi i brofi gwahanol fodelau a dulliau gweithredu yn ddyfnach. Mae dadansoddwyr Llywodraeth Cymru wrthi'n archwilio modelau amgen a mynediad at fwy o bŵer cyfrifiadureg ar UK SeRP ar hyn o bryd.

Yn olaf, ni chafwyd data gan bob un o'r heddluoedd yng Nghymru. Byddai set ddata fwy cyflawn wedi ein galluogi i hyfforddi'r model i ddeall cyd-destun achosion o gosb gorfforol ledled Cymru gyfan yn well.

# 3. Canfyddiadau

Amcangyfrifon yn unig yw'r holl ffigurau isod. Nid oes unrhyw fodelau 100% yn gywir, ac mae rhywfaint o gamddosbarthu yn anochel hyd yn oed wrth ddefnyddio modelau profedig.

Cafwyd cyfanswm o 13,860 o ffeiliau achos yr heddlu gan 3 heddlu yng Nghymru. Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Caiff y cyfansymiau a'r canrannau eu cyfrifo gan ddefnyddio niferoedd crai ac mae'n bosibl na fyddant yn ymddangos fel petaent yn cyfateb nac yn dod i gyfanswm o 100%.

Fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu 3 blynedd o'r Ddeddf (Llywodraeth Cymru, 2025), cyhoeddwyd ffigurau ar ffurf cyfanswm yr achosion o gosb gorfforol. Mae'r canfyddiadau isod yn darparu dadansoddiad llawn o'r ffigurau hynny yn ôl eu dosbarthiad a'r flwyddyn.

## 3.1. Cyn gweithredu'r Ddeddf

Roedd y set ddata yn cynnwys 5,395 o achosion o ymosodiadau cyffredin ar gyfer y cyfnod rhwng 21 Mawrth 2019 a 20 Mawrth 2022. O'u plith, amcangyfrifwyd bod 960 (18%) yn gosb gorfforol lefel uwch, bod 2,910 (54%) yn gosb gorfforol lefel is, a bod 1,525 (28%) yn fathau eraill o ymosod.

Amcangyfrifodd y model fod achosion o gosb gorfforol lefel uwch a lefel is wedi lleihau ychydig yn ystod ail flwyddyn y cyfnod hwn (rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021), ond wedyn eu bod wedi cynyddu yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, yn enwedig ar gyfer achosion o gosb gorfforol lefel is.

### Tabl 1: Amcangyfrif o'r achosion o gosb gorfforol ac ymosodiadau eraill yn erbyn plant, rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2022 [Nodyn 1]

| Dosbarthiad yr achos | Rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2020 | Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 | Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Cosb gorfforol lefel is** | 885 | 865 | 1,160 | **2,910** |
| **Cosb gorfforol lefel uwch** | 350 | 230 | 375 | **960** |
| **Ymosodiad arall** | 450 | 450 | 625 | **1,525** |
| **Pob achos** | **1,685** | **1,545** | **2,160** | **5,395** |

Ffynhonnell: 5,395 o ffeiliau achos yr heddlu a gafwyd gan 3 o'r heddluoedd yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2022

[Nodyn 1] Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf

## 3.2. Ar ôl gweithredu'r Ddeddf

Roedd y set ddata yn cynnwys 8,465 o achosion o ymosodiadau cyffredin ar gyfer y cyfnod rhwng 21 Mawrth 2022 ac 8 Mehefin 2025, sef cynnydd o 3,070 (57%) o'r cyfnod a oedd yn gysylltiedig â'r cyfnod cyn gweithredu'r Ddeddf. O'u plith, amcangyfrifwyd bod 1,210 (14%) yn gosb gorfforol lefel uwch, bod 4,970 (59%) yn gosb gorfforol lefel is, a bod 2,285 (27%) yn fathau eraill o ymosod.

Yn ystod y cyfnod ôl-weithredu hwn, amcangyfrifodd y model fod achosion o gosb gorfforol lefel uwch wedi lleihau'n raddol ar ôl y flwyddyn gyntaf, a bod achosion o gosb gorfforol lefel is wedi cynyddu ychydig yn ystod ail flwyddyn y cyfnod ôl-weithredu, ond gan leihau yn ystod y flwyddyn ddata ddiweddaraf.

### Tabl 2: Amcangyfrif o'r achosion o gosb gorfforol ac ymosodiadau eraill yn erbyn plant, rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mehefin 2025 [Nodyn 1]


| Dosbarthiad yr achos | Rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023 | Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 | Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mehefin 2025 | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Cosb gorfforol lefel is** | 1,680 | 1,715 | 1,575 | **4,970** |
| **Cosb gorfforol lefel uwch** | 445 | 430 | 340 | **1,211** |
| **Ymosodiad arall** | 715 | 715 | 855 | **2,285** |
| **Pob achos** | **2,840** | **2,860** | **2,765** | **8,465** |

Ffynhonnell: 8,465 o ffeiliau achos yr heddlu a gafwyd gan 3 o'r heddluoedd yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mehefin 2025

[Nodyn 1] Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf

Mae hyn yn gynnydd o 250 (26%) o achosion o gosb gorfforol lefel uwch a 2,069 (71%) o achosion o gosb gorfforol lefel is o gymharu â'r amcangyfrif o achosion yn ymwneud â'r cyfnod cyn gweithredu'r Ddeddf. Achosion o gosb gorfforol lefel is oedd yn gyfrifol am 67% (3,070 o achosion) o'r cynnydd yn y cyfanswm o achosion o ymosodiadau cyffredin cyn gweithredu'r Ddeddf ac ar ôl gweithredu'r Ddeddf.

### Ffigur 1: Amcangyfrif o'r achosion o gosb gorfforol ac ymosodiadau eraill yn erbyn plant, rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mehefin 2025 [Nodyn 1]




Disgrifiad o ffigur 1: mae'r siart linell hon yn dangos, ers y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2020, yr amcangyfrifir bod nifer yr achosion o gosb gorfforol lefel is wedi cynyddu o 885 i 1,715 erbyn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, cyn lleihau ychydig yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mehefin 2025. Amcangyfrifir bod achosion o ymosodiadau eraill wedi cynyddu'n raddol dros yr un cyfnod o 450 i 855, ac amcangyfrifir bod achosion o gosb gorfforol lefel uwch wedi amrywio rhwng 200 a 450.

Ffynhonnell: 13,860 o ffeiliau achos yr heddlu a gafwyd gan 3 o'r heddluoedd yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mehefin 2025

[Nodyn 1] Mae'r data wedi’u talgrynnu i’r 5 agosaf

# 4. Casgliadau

Dangoswyd bod y dulliau a ddefnyddiwyd i nodi a chategoreiddio achosion o gosb gorfforol yn erbyn plant yn yr adroddiad hwn (LLM) yn well na'r dulliau chwilio geiriau allweddol blaenorol. Mae hyn oherwydd bod modelau iaith mawr yn gallu defnyddio naratif llawn pob cofnod i nodi achosion perthnasol, cymhwyso dosbarthiadau cyson dros amser, a gwahaniaethu rhwng cosb gorfforol a mathau eraill o ymosod. Mae hyn yn golygu y gall modelau iaith mawr gynhyrchu amcangyfrifon mwy cadarn, a thrwy hynny, ddarparu dadansoddiad cryfach a mwy dibynadwy.

Amcangyfrifodd y model y rhoddwyd gwybod am fwy o achosion o gosb gorfforol yn erbyn plant yn ystod y 3 blynedd ar ôl gweithredu'r Ddeddf nag yn ystod y 3 blynedd cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus amlgyfrwng helaeth. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer yr amcangyfrifon o achosion o gosb gorfforol lefel is, gan gynyddu dros 2,000 ar ôl gweithredu'r Ddeddf o gymharu â'r 3 blynedd cyn hynny. Y cynnydd hwn yn yr amcangyfrif o achosion o gosb gorfforol lefel is oedd y prif reswm dros gyfanswm y cynnydd o ran achosion o ymosodiadau cyffredin rhwng y 2 gyfnod, ond arhosodd yr amcangyfrif o achosion o gosb gorfforol lefel uwch yn debyg dros amser.

Er mwyn cefnogi adolygiad ôl-weithredu 5 mlynedd Llywodraeth Cymru o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, rhagwelir y caiff y model hwn ei ddatblygu ymhellach ac y cynhelir y dadansoddiad eto. Mae'r cynlluniau ar gyfer amcangyfrif yr achosion o gosb gorfforol yn erbyn plant a gofnodir gan yr heddlu ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar 2 faes: yn gyntaf, gellir gwella'r cwmpas drwy gael set ddata lawn gan bob un o'r heddluoedd yng Nghymru; disgwylir y bydd set hyfforddi fwy a mwy amrywiol yn gwella'r gallu i gyffredinoli ac yn lleihau ansicrwydd yn yr amcangyfrifon. Caiff cywirdeb wrth nodi a neilltuo categorïau achosion o gosb gorfforol yn erbyn plant er mwyn cynhyrchu'r amcangyfrifon hefyd ei wella ymhellach. Caiff y ffocws hwn ei gefnogi drwy archwilio mynediad at fersiynau o UK SeRP â mwy o bŵer cyfrifiadurol, gan y byddai hyn yn ein galluogi i brofi modelau mwy pwerus a chynhwysfawr, ac felly gywir.

## Cyfeiriadau


Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) Act 2020, 'Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020', (Cyrchwyd: 25/02/2026)

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) (2025), 'Offences against the Person, incorporating the Charging Standard | Gwasanaeth Erlyn y Goron', (Cyrchwyd: 25/02/2026)

Y Swyddfa Gartref (2024), 'Crime Recording Rules for Front line Officers and Staff', Swyddfa Gartref y DU

Microsoft (2022), 'Presidio: Data Protection and de-identification SDK, Microsoft Presidio', (Cyrchwyd 25/02/2026)

Naveed H, Khan A, Qiu S, Saqib M, Anwar S, Usman M, Akhtar N, Barnes N, Mian A (2025), 'A Comprehensive Overview of Large Language Models', ACM Trans. Intell. Syst. Technol, Cyfrol 16, Rhifyn 5, Erthygl 106 (Hydref 2025)

Heddlu Seland Newydd (2007), 'Three Month Review: Background and Methodology | Heddlu Seland Newydd', (Cyrchwyd: 25/02/2026)

Stripe N (2021), 'Police recorded offences involving knives or sharp instruments: methodology changes - Office for National Statistics', (Cyrchwyd: 25/02/2026)

Vaswani A, Shazeer N, Parmar N, Uszkoreit J, Jones L, Gomez A, Kaiser L, Polosukhin I (2017), 'Attention Is All You Need', (Cyrchwyd: 25/02/2026)

Llywodraeth Cymru (2020), 'Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Casglu Data a Monitro 26 Chwefror 2020', Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2025), 'Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020: adroddiad synthesis | LLYW.CYMRU', (Cyrchwyd: 25/02/2026)

# Atodiad A

**Gwybodaeth gyd-destunol a ddarparwyd yn y set ddata am y dioddefwyr a'r troseddwyr**

Roedd y data yn cynnwys y newidynnau canlynol:

- Testun_MO – y disgrifiad o'r drosedd
- DyddiadCofnodi – y dyddiad y cofnodwyd y drosedd
- DyddiadCyflawni – y dyddiad y cyflawnwyd y drosedd
- VOR – y gydberthynas rhwng y dioddefwr a'r troseddwr
- CodCanlyniad – canlyniad yr ymchwiliad yn unol â dosbarthiad troseddau Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref (Y Swyddfa Gartref, 2024)
- CA – Baner yn dynodi achos o gam-drin plentyn
- CC – Baner yn dynodi pryder ynghylch plentyn
- CP – Baner yn dynodi gorchymyn amddiffyn plant